

MEDDYGFA WAUNFAWR

Atodiad 1

Holiadur Cofrestru Claf, Manylion Yswiriant a Datganiad y Claf

Gofynnwn i chi ddarparu'r wybodaeth ganlynol. Defnyddiwn y wybodaeth hon i benderfynu a ydych yn gymwys i gofrestru fel preswilydd parhaol neu dros dro i dderbyn triniaeth am ddim ar y GIG ac yn gymwys i lenwi ffurflen gofrestru GMS1 neu GMS3 neu a ddylech gofrestru'n breifat a bod yn destun taliadau preifat y practis.

Enw Llawn

Cyfeiriad yn y Deyrnas Unedig

Cyfeiriad Cartref Dramor

Dyddiad Geni

A ydych yma ar eich gwyliau (mae hyn yn cynnwys ymweliadau hir â theulu a ffrindiau)?
Ydw / Nac ydw

Am faint y buoch yn byw yn y Deyrnas Unedig? mis / blwyddyn

Am faint y byddwch yn aros yn y Deyrnas Unedig? mis / blwyddyn

Rhan 1 – Darparwch un ddogfen ar gyfer pob un o'r adrannau priodol isod:

1. Pasbort a Fisa (os oes un)
2. Cerdyn Yswiriant Iechyd Ewropeaidd (os yw ar gael)
3. Yr hawl i aros yn y Deyrnas Unedig, os o'r tu allan i'r Ardal Economaidd Ewropeaidd
 - Papurau adnabod gan y Swyddfa Gartref,
yn dangos yr hawl i aros yn y Deyrnas Unedig
 - Prawf o fynychu cwrs i fyfyrwr
yn para mwy na chwe mis yn y Deyrnas Unedig
 - Prawf o fynychu cwrs i fyfyrwr wedi'i noddi gan lywodraeth y Deyrnas Unedig
yn para llai na chwe mis yn y Deyrnas Unedig
 - Dogfen clirio mynediad (wedi'i stampio)
 - Trwydded breswyllo bresennol (wedi'i stampio)
 - Trwydded waith
 - Prawf arall o weithio yn y Deyrnas Unedig am fwy na 6 mis
 - Fisa Cyndadol
 - Tystysgrif Geni
4. Tystiolaeth o'ch cyfeiriad (Rhaid i'ch enw a'ch cyfeiriad ymddangos ar y ffurflen)
 - Cerdyn rhent awdurdod lleol
 - Biliau cyfleustodau wedi'u talu
 - Cardiau/cyfriflenni banc/cymdeithas adeiladu
 - Cerdyn rhif Yswiriant Gwladol
 - Slip talu cyflogaeth bresennol
 - Llythyr oddi wrth Asiantaeth Budd-daliadau/llyfr budd-dal/cerdyn cofrestru
 - Llyfr Pensiwn y Deyrnas Unedig
 - Dogfen dreth swyddogol
5. Manylion Yswiriant (Fel sy'n berthnasol, os am gofrestru'n breifat)

Yr wyf drwy hyn yn awdurdodi'r Practis Meddygon Teulu, neu ei asiantau awdurdodedig, i wneud ymholiadau â'm hyswirwyr i gadarnhau graddau a chyfyngiadau fy mholisi yswiriant iechyd. Dyma fanylion fy yswiriant:

Enw'r Yswirwyr

Cyfeiriad yr Yswirwyr

Cod Post Rhif ffôn

Rhif polisi Rhif awdurdodi

Gweinyddwr Budd-daliadau

Er darpariaethau fy ymrwymiad personol, cytunaf i drosglwyddo i'r Practis Meddygon Teulu unrhyw rai o fy hawliau i gael eu talu am daliadau claf preifat gan fy yswirwyr mewn perthynas â'r cyfnod presennol o driniaeth a ddarperir. Pe byddai unrhyw ddiffyg mewn taliad gan yr yswirwyr, deallaf yr atebolrwydd llawn hwnnw a chytunaf i'w dderbyn. Yr wyf hefyd yn awdurdodi'n ddiamod i unrhyw nodiadau meddygol gael eu datgelu gan gynnwys darparu copiâu ohonynt i fy yswirwyr fel rhan o'u gofynion prosesu hawliad a thalu.

Datganiad: (I'w lofnodi p'un a ydych yn gwneud cais i gofrestru fel claf preifat neu glaf y GIG)

Yr wyf wedi darllen a deall y rhesymau y gofynnwyd imi lenwi'r ffurflen hon, a chytunaf i'r Practis Meddygon Teulu gysylltu â mi i gadarnhau unrhyw fanylion a roddwyd uchod. Cytunaf y gellir cysylltu â'r cyrff swyddogol perthnasol i wirio unrhyw ddatganiad a wnaed gennyf, pe byddai angen gwneud hyn. Mae'r wybodaeth a roddais yn y ffurflen hon yn gywir hyd eithaf fy ngwybodaeth. Pe byddwn yn rhoi gwybodaeth ffug yn fwriadol neu'n dal gwybodaeth yn ôl yn fwriadol, deallaf y gallai camau pellach gael eu cymryd yn fy erbyn. Gallai hyn gynnwys cyfeirio'r mater at y Gwasanaethau Atal Twyll Cenedlaethol yng Nghymru neu Dîm Arbenigol Atal Twyll Lleol BIPBC. Ymhellach, deallaf y gallai arian a allai fod yn berthnasol ac yn daladwy o dan dariff cleifion preifat Meddygon Teulu fod yn daladwy a phe na thelir, byddai'n destun camau adennill gan y Practis Meddygon Teulu. Pe byddai fy nghofrestrriad yn cael ei dderbyn ar y GIG, deallaf y byddai'r holl driniaeth gofal sylfaenol am ddim, a deallaf y gallai cleifion sy'n Ymwelwyr Tramor fod yn destun taliadau am wasanaethau penodol a ddarperir gan ysbytai'r GIG o dan reoliadau taliadau ysbytai Llywodraeth Cymru. Deallaf fod gennyf ddyletswydd i roi i dderbynfa'r ysbyty gyfeiriad preswyl tramor parhaol yn ychwanegol at breswyllo mewn unrhyw gyfeiriad dros dro yn y Deyrnas Unedig.

Llofnodwyd gan: **Dyddiad:**

neu ar ran: **(Plentyn o dan 16 oed)**

Pwysig: Darllenwch yn ofalus cyn llofnodi'r ffurflen hon

Nid yw triniaeth ysbyty'r GIG am ddim i bawb ac mae gan holl gyrff y GIG ddyletswydd cyfreithiol i sefydlu hawl. Pe caiff ei farnu'n angenrheidiol gan y Practis Meddygon Teulu, caiff y wybodaeth a ddarperwch ei rhoi i Gydymffurfiaeth/Gorfodaeth Mewnffudo y Swyddfa Gartref (C/GMSG) i ganfod eich statws mewnffudo, a allai effeithio ar eich cymhwysedd i gael triniaeth ysbyty'r GIG am ddim. Mae C/GMSG yn gyfrifol am ddiogelu ffiniau'r Deyrnas Unedig a rheoli mudo er lles y Deyrnas Unedig. Caiff y wybodaeth a ddarperir ei defnyddio a'i chadw gan C/GMSG at ei swyddogaethau, sy'n cynnwys gorfodi rheolaeth mewnffudo dramor, yn y manau dod i mewn ac oddi mewn i'r Deyrnas Unedig. Gallai C/GMSG hefyd rannu'r wybodaeth hon â sefydliadau gorfodi'r gyfraith eraill ac awdurdodi asiantau adennill dyled at ddibenion yn cynnwys diogelwch cenedlaethol, ymchwilio i droseddau ac erlyn, a chasglu dirwyon a chosbau sifil. Pe methwch â thalu am driniaeth y GIG y mae taliadau wedi'u codi amdanynt, gallai arwain at wrthod cais mewnffudo i ddod i mewn i'r Deyrnas Unedig neu aros yn y Deyrnas Unedig yn y dyfodol. Gallai gwybodaeth bersonol (anfeddygol) angenrheidiol gael ei throsglwyddo drwy Lywodraeth Cymru i C/GMSG yn y dyfodol at y diben hwn.